

Cyngor Cymuned Llanelian (255)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mehefin 10, 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

| | | | |
|------------|------------------|----------------|--------------------|
| Presennol: | Dafydd Griffiths | Gordon Hayes | Carol Whitaker |
| | Thomas D Jones | T Elfyn Hughes | David Herbert |
| | John Griffiths | Glenys Jones | Helen Hughes |
| | Hefina Williams | David Gerrard | Cyng. Aled M Jones |

Ymddiheuriadau: Cyng. Richard Jones

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod

2 Datgan Diddordeb

- David Gerrard – Llythyr Cylch Meithrin Penysarn

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Thomas D Jones, Eilio Helen Hughes.

4 Materion yn Codi

4.1 Gwefan – Cafwyd ail bris am ddylunio a chynnal gwefan gan Super Geek ICT Services (£580). Penderfynwyd dderbyn y pris gwreiddiol gan Anglesey Computer Solutions (£520). Nodwyd bod y Clerc wedi gallu sicrhau www.llanelian.org.uk at ddefnydd y Cyngor am ddwy flynedd.

CET

4.2 Torri Gwair – Cafwyd ebost gan y Cyngor Sir yn cadarnhau nad yw eu contractwyr yn dechrau torri gwair nes ddechrau Mehefin. Mae'r gwair ar hyd y ffordd osgoi eisioes wedi ei dorri.

4.3 Problemau Parcio – Nid yw Huw Percy wedi bod yn ei waith felly nid oes cyfarfod wedi ei drefnu hyd yma. Fe ymddiheurodd Cyng Aled M Jones am yr oedi ac fe gadarnhaodd y bydd yn trefnu cyfarfod cyn gynted a phosib er mwyn datrys y mater.

4.4 Caeau Chwarae – Mae Richard Edwards wedi bod yn gweithio yn y cae chwarae (Lon Tyddyn Waen) mewn ymateb i'r pwyntiau a nodwyd gan aelodau'r is-bwyllgor. Bydd yr arolwg yn cymryd lle rhywbryd mis yma.

4.5 Mynwent Llanelian – Deallwyd bod y Clerc wedi bod mewn cysylltiad a Dave Jump eto ac ar ddeall y buasai modd gosod giat newydd petai dim modd trwsio y giat bresennol. Wedi anfon lluniau ato o gyflwr y giat, nid yw yn fodlon a giat newydd, ac nid yw am ymweld a'r safle i weld y giat dros ei hun heb godi ar y Cyngor Cymuned am wneud hynnu (polisi newydd CSYM). Fe ofynnwyd i Cyng Aled M Jones gysylltu a Mr Jump i gadarnhau hyn. Nodwyd bod angen gwybod pa swyddogion eraill y Cyngor sir sydd yn codi am gyfarfodydd ac ymweliadau fel bod modd cynnwys y costau yn y briseb am y flwyddyn nesaf.

AMJ

Gofynnwyd i aelodau'r is-bwyllgor aros ar ol ar ddiwedd y cyfarfod.

4.6 Binau Ailgylchu – Mae'r Cyngor Sir wedi eu hysbysu bod y binau yn llawn ac yn trefnu eu bod yn cael eu gwagio cyn gynted a phosib.

5 Cynllunio (ni fydd y Cynghorwyr Sirol yn cymryd rhan yn y drafodaeth)

5.1 Roedd un cais i'w drafod -

- Lletroed Mawr – cafwyd cynlluniau diwygiedig ar gyfer y datblygiad. Fe gytunodd yr aelodau nad oedd eu barn wedi newid ac Roeddent yn sefyll a'r sylwadau blaenorol. Cafwyd wybod bod nifer o faterion yn ymwneud a'r cais ac bod y cais wedi ei alw i Bwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir.

CET

5.2 Penderfyniadau –

Cafwyd wybod bod y Cyngor Sir wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

- Glaslyn, Penysarn (24C178C) – Caniatad
- 1 Llanfoi, Llanelian (24C211C/LB) – Caniatad

- 1 Llanfoi, Llaneilian (24C211D) – Caniatad
- Point Lynas (24C164F/LB) – Caniatad
- Seren Wen, Gadfa (24C25D/VAR) - Caniatad
- Tir ger Neuadd WI Llaneilian (24C318) – Caniatad
- Min y Don, Dulas (24C317) – Caniatad
- Point Lynas (24C164E) – Caniatad

7 Materion Ariannol

- 7.1 Archwiliad Mewnol – Cafwyd adroddiad yn ol gan Mr John Roberts yr archwiliwr mewnol. Gwnaed dau bwynt er mwyn gwella y system bresennol sef –
- 1) Rhestru pob taliad yng nghofnodion y cyfarfod y byddent yn cael eu cymeradwyo.
 - 2) Cysoni banc pob chwarter gan restru taliadau yn ol rhif y siec.

Dosbarthwyd gopi o'r gwahaniaethau rhwng cyfrifon 2012/13 a 2013/14 i bawb oedd yn bresennol. Y prif wahaniaethau oedd yr incwm a wnaed gan weinyddu goriadau'r llithfra, ac rhodd Mrs Mair Morris.

- 7.2 Archwiliad Allannol – Cymeradwywyd cyfrifon 2013/14 ac fe lofnodwyd y ffurflenni priodol ar gyfer UHY Hacker Young yr archwiliwr allannol.

7.3 Taliadau –

- Ysgol Gynradd Penysarn (Cyfraniad) £75
- IG Jones (Gwasanaeth cyflogaeth) £136
- Zurich (Yswiriant) £252.26
- Carli Evans-Thau (Llaneilian.org.uk) £5.48

8 Gohebiaeth

- 8.1 Cylch Meithrin Penysarn – cafwyd llythyr gan Mrs Mairwen Gerrard ar ran y Cylch yn gofyn am gyfraniad ariannol. Cynnigwyd bod y Cyngor yn cyfrannu £50. Cynnig Glenys Jones, Eilio Thomas D Jones, Pawb yn hapus ac yn fodlon gweld yr arian yn cael ei rannu yn y gymuned leol. CET

- 8.2 Horizon – gwybodaeth am gyfarfodydd agored dros y misoedd nesaf yn yr ardal yn ymwneud a phrosiect Wylfa Newydd.

- 8.3 Eon / Eurus Energy - gwybodaeth am gyfarfodydd agored dros y misoedd nesaf yn yr ardal yn ymwneud a Fferm Wynt Rhyd y Groes.

- 8.4 Un Llais Cymru – Rhifyn diweddaraf cylchgrawn Y Llais

9 Unrhyw Fater Arall

- 9.1 Cafwyd wybod am ddau gwyn yn ymwneud ag adeilad Ty Copr – deallwyd for y rhan oedd yn siop wedi ei newid yn flat wyliau heb ganiatad newid defnydd (ac yn cael ei hysbysebu ar y we gyda pharcio ar gael). Bydd Cyng Aled M Jones yn gwneud ymholiadau. AMJ

- 9.2 Mae unigolyn wedi tynnu sylw at ddiogelwch grisiau ar lwybr cyhoeddus ger yr Hen Delegraph. Mae tipyn o ddibyn ger y grisiau ac nid oes canllaw i arbed defnyddwyr rhag disgyn. Y Cyngor Sir sy'n gyfrifol am gynnal a chadw gamfeydd ac ati a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a thynnu sylw at y mater. CET

10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf –

8/7/2014, 5/8/2014, 2/9/2014, 14/10/2014

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.15 o'r gloch.